



Gweddnewid Gofal yn yr 21^{ain} Ganrif: Dogfen ymgynghori

Cyfle i ddweud eich dweud ar newidiadau i'n

- ffioedd
- gofynion o ran cymwysterau gweithwyr gofal cartref
- rheolau addasrwydd i ymarfer 2017
- Côt Ymarfer ar gyfer Pobl sy'n Cyflogi Gweithwyr Gofal Cymdeithasol



Sut bydd y safbwyntiau a'r wybodaeth a rowch i ni'n cael eu defnyddio

Bydd staff Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n ymdrin â'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw yn gweld unrhyw ymateb a anfonwch atom yn llawn. Gall aelodau staff eraill ei weld hefyd er mwyn helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Yn ogystal, gallem gyhoeddi ymatebion yn llawn. Fel arfer, caiff enw a chyfeiriad yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn gywir. Os nad ydych am i'ch enw neu'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig pan fyddwch yn anfon eich ymateb a byddwn yn eu cuddio.

Gallai enwau neu gyfeiriadau rydym ni'n eu cuddio o hyd gael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad ydym o'r farn y byddai hyn yn digwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd weld gwybodaeth sy'n cael ei dal gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith yn caniatáu i ni ddal gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau hefyd. Os bydd rhywun yn gofyn am gael gweld gwybodaeth yr ydym wedi'i dal yn ôl, bydd yn rhaid i ni benderfynu p'un ai i'w rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi eu henw a'u cyfeiriad, mae hynny'n ffaith bwysig y byddem yn ei hystyried. Fodd bynnag, gallai fod rhesymau pwysig ambell waith pam byddai'n rhaid i ni ddatgelu enw a chyfeiriad rhywun, er iddynt ofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn i ni benderfynu'n derfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Manylion cyswllt

Gofal Cymdeithasol Cymru

Tŷ South Gate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444

Minicom: 029 2078 0680

E-bost: gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru

gofalcymdeithasol.cymru

Twitter: @GofCymdeithasol

© 2017 Gofal Cymdeithasol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ei storio mewn system adalw na'i drosglwyddo mewn unrhyw fodd heb ganiatâd ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylai ymholiadau ynghylch atgynhyrchu sydd y tu hwnt i'r hyn a ganiateir yn benodol gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru gan ddefnyddio'r cyfeiriad uchod.

Fformatau eraill:

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn testun mawr neu mewn fformatau eraill, os bydd angen. Mae copïau ar gael yn Saesneg hefyd.

Mynegai

| Adran | Cynnwys | Tudalennau |
|---------------------------|--|-------------------|
| 1 | Ynglŷn â'r ymgynghoriad | 4-6 |
| 2 | Gwybodaeth amdanoch chi/eich sefydliad | 7 |
| 3(a) | Newidiadau i ffioedd cofrestru | 8-11 |
| 3(b) | Cwestiynau'r ymgynghoriad – Eich barn am newidiadau arfaethedig i ffioedd cofrestru | 12-13 |
| 4(a) | Gofynion o ran cymwysterau gweithwyr gofal cartref | 14-16 |
| 4(b) | Cwestiynau'r ymgynghoriad – Eich barn am y gofynion arfaethedig o ran cymwysterau | 17-18 |
| 5(a) | Newidiadau arfaethedig i'r Côd Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr | 19 |
| 5(b) | Cwestiynau'r ymgynghoriad – Eich barn am newidiadau i'r Côd Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr | 20-21 |
| 6(a) | Newidiadau i Reolau Addasrwydd i Ymarfer 2017 | 22 |
| 6(b) | Cwestiynau'r ymgynghoriad – Eich barn am newidiadau i Reolau Addasrwydd i Ymarfer 2017 | 23-24 |
| Atodiad 1 | Rhestr ddsbarthu ar gyfer yr ymgynghoriad | 25 |
| Atodiad 2 | Côd Ymarfer Drafft ar gyfer Pobl sy'n Cyflogi Gweithwyr Gofal Cymdeithasol | 26-34 |

Adran 1- Ynglŷn â'r ymgynghoriad

1.1 Cyflwyniad

Daw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 â newidiadau mawr i'r ffordd y caiff gofal cymdeithasol ei ddarparu i bobl Cymru. Bydd y pwyslais newydd ar ganlyniadau i pobl sy'n derbyn gofal a chymorth yn mynnu datblygu modelau gofal newydd, yn ogystal â newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae'r gweithlu gofal cymdeithasol yn ymarfer. Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu dymuniadau'r rheiny y mae angen gofal a chymorth arnynt, ond maent yn angenrheidiol hefyd os ydym i fodloni'r galw cynyddol am wasanaethau ac, ar yr un pryd, addasu i newidiadau yn y boblogaeth yng Nghymru.

Mae angen i ni gefnogi'r gweithlu i'w alluogi i ddod yn weithlu mwy medrus sy'n gallu ymateb i anghenion gofal a chymorth cymhleth. Yn ogystal, mae angen i ni ddenu niferoedd mawr o weithwyr o bob oed i'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Sefydlwyd Gofal Cymdeithasol Cymru yn 2017 i ddarparu arweinyddiaeth a chymorth i'r sector gofal cymdeithasol wrth iddo addasu i'r gofynion newydd hyn. Mae gennym rôl i ddarparu cymorth i'r sector gofal cymdeithasol a phoblogaeth Cymru yn y meysydd canlynol.



Trwy ddefnyddio tystiolaeth o arfer da i osod safonau ar gyfer y gweithlu, gallwn ddenu'r bobl iawn i'r sector a sicrhau bod gennym weithlu sy'n ddigon medrus i fodloni heriau'r degawd nesaf a thu hwnt. Wrth wneud hyn byddwn yn ceisio darparu'r canlynol:

I'r cyhoedd

- sicrwydd y bydd y rheiny a gyflogir i'w cynorthwyo yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol
- datganiadau clir ynglŷn â'r modd y dylai staff gofal weithio gyda nhw
- gwybodaeth am y gweithlu a gwasanaethau gofal

I gyflogwyr a staff gofal

- ymgyrch cenedlaethol i ddenu pobl i weithio yn y sector gofal
- prosesau cynllunio'r gweithlu i ddiwallu anghenion y dyfodol
- mynediad i adnoddau i helpu staff fodloni safonau a sefydlu arfer da
- cymorth i staff hyfforddi mewn meysydd blaenoriaeth cenedlaethol allweddol

I staff gofal

- strwythur gyrfa cliriach ar gyfer gwaith yn y sector gofal cymdeithasol
- mynediad i hyfforddiant achrededig o ansawdd uchel i sicrhau arfer da a'u helpu i ddatblygu'u gyrfaedd
- mynediad uniongyrchol i adnoddau i'w cynorthwyo yn eu gwaith o ddydd i ddydd
- dealltwriaeth fwy ymhlith y cyhoedd o'r gwaith cymhleth a wnânt
- statws uwch yn gysylltiedig â bod yn rhan o broffesiwn rheoledig.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i gynllunio i gefnogi'r broses weddnewid er mwyn sicrhau bod y gweithlu gofal cymdeithasol yn barod i fodloni'r heriau newydd o ran niferoedd, sgiliau a hyder yn eu hymarfer.

1.2 Newidiadau yr ydym am eu gwneud a pham ein bod yn meddwl eu bod yn angenrheidiol?

Ein diben yw amddiffyn, hybu a chynnal diogelwch a llesiant y cyhoedd yng Nghymru, fel yr amlinellir yn adran 68 *Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016* ("y Ddeddf").

Mae angen i ni wneud newidiadau fel y gallwn gyflawni'r amcanion a osododd Llywodraeth Cymru i ni yn y Ddeddf, ac mae'r newidiadau hyn yn ymwneud â'n:

- ffioedd
- gofynion o ran cymwysterau
- rheolau addasrwydd i ymarfer
- Côd Ymarfer ar gyfer Pobl sy'n Cyflogi Gweithwyr Gofal Cymdeithasol.

1.3 Strwythur yr ymgynghoriad a sut i gymryd rhan

- Caiff y newidiadau eu hesbonio yn adrannau 4-7.
- Mae pob adran yn cynnwys cyfres o gwestiynau.
- Gallwch ateb pob cwestiwn, neu ateb y cwestiynau sydd bwysicaf i chi yn unig.
- Gallwch ymateb ar-lein yn: gofalcymdeithasol/ymgyngoriadau
- Bydd yr ymgynghoriad yn para 12 wythnos, rhwng 24 Gorffennaf a 16 Hydref 2017.
- Bydd yn gorffen am 5pm ar 16 Hydref 2017. Ni allwn ystyried sylwadau sy'n cyrraedd yn ddiweddarach.
- Gallwch rannu'r ddogfen hon â chydweithwyr sydd â buddiant.
- Os bydd angen copi arnoch mewn fformat gwahanol neu os bydd gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni yn ymgyngoriadau@gofalcymdeithasol.cymru neu drwy ffonio 0300 3033 444.

Diolch am gymryd rhan.

Adran 3a – Newidiadau i ffioedd cofrestru

3.1 Ynglŷn â'r Gofrestr Gweithwyr Gofal Cymdeithasol (y Gofrestr)

Yn ôl Adran 80 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, mae'n ofynnol i Gofal Cymdeithasol Cymru gadw cofrestr:

- o weithwyr cymdeithasol
- o weithwyr gofal cymdeithasol o unrhyw ddisgrifiad arall a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau
- o weithwyr cymdeithasol sydd ar ymweliad o wladwriaethau Ewropeaidd perthnasol.

Defnyddiwn y gofrestr i'n helpu i gyflawni ein dyletswyddau amddiffyn y cyhoedd a datblygu'r gweithlu fel y'u hamlinellir yn y Ddeddf – dim ond y rhai sy'n addas i weithio yn y sector gofal cymdeithasol rheoleiddiedig yn unig all gofrestru a'r rhai sydd wedi cofrestru yn unig sydd â chaniatâd i weithio yn y sector. Fel hyn, rydym yn rhoi trwydded i'r rheiny sy'n addas i ymarfer i wneud hynny, yn helpu i gadw'r cyhoedd yn ddiogel a gwella safonau ar gyfer y rhai sy'n derbyn gwasanaethau gofal a'r rhai sy'n eu darparu.

3.2 Y Gofrestr sy'n ehangu

Mae gennym oddeutu 11,200 o bobl cofrestredig ar hyn o bryd, ond o 2018 ymlaen, bydd y gofrestr yn cael ei hagog i grwpiau newydd o weithwyr, ac rydym yn amcangyfrif y gallai 50,000 arall wneud cais i gofrestru. Gall gweithwyr gofal cartref gofrestru gyda ni o 2018 ymlaen a rhaid iddynt gofrestru o 2020 ymlaen. Gall gweithwyr cartrefi gofal i oedolion gofrestru o 2020 ymlaen a rhaid iddynt gofrestru o 2022 ymlaen. Golygir hyn y bydd y mwyafrif o'r gweithlu gofal cymdeithasol yn cael ei reoleiddio - sy'n ddatganiad o'r broffesiynoliaeth a ddisgwylir gan y sector gofal yn y blynyddoedd i ddod.

3.3 Pam newid y ffioedd cofrestru?

Os ydym i barhau i weithredu'r gofrestr mewn ffordd ddiogel ac effeithlon, ac os ydym i gofrestru nifer fawr o bobl, mae angen codi ein ffioedd. Caiff y rhan fwyaf o gyrff rheoleiddio eu hariannu'n gyfan gwbl gan ffioedd cofrestru, ond mae Llywodraeth Cymru, gan gydnabod lefelau cyflog yn y sector gofal cymdeithasol, wedi rhoi cymhorthdal i'r broses gofrestru ers i ni ddechrau rheoleiddio'r gweithlu. Maent wedi ymrwmo i gynnal cymhorthdal i'r gweithlu, ond gan gydnabod y pwysau ar bwrs y wlad, rydym am i'n ffioedd fod yr un fath â rhai cyrff tebyg¹. Nid ydym wedi adolygu na phennu cynnydd yn y ffi ers 10 mlynedd. Mae angen i ni newid y strwythur ffioedd hefyd fel ei fod yn adlewyrchu'r categorïau newydd o weithwyr gofal cymdeithasol y bydd yn ofynnol iddynt gofrestru o 2018 ymlaen.

¹ Dangosir tabl 2 ffioedd ar gyfer cyrff rheoleiddio tebyg y DU

Rydym eisiau helpu'r sector i ddenu a chadw staff o safon ac rydym am gyflawni safonau uwch o ddarpariaeth gofal i'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau gofal yng Nghymru. Rydym hefyd eisiau gwella rhagolygon gweithwyr gofal sy'n chwilio am gyfleoedd datblygiad proffesiynol. Mae cadw cofrestr yn rhan o'r broses hon. Mae'n rhoi cydnabyddiaeth broffesiynol i'r rheiny sydd ar y gofrestr, ynghyd â mynediad i adnoddau hyfforddi a datblygu. Mae'n rhoi sicrwydd i'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau gofal; gallant fod yn sicr bod gweithiwr cofrestredig yn meddu ar gymwysterau addas a'i fod wedi cytuno i fodloni'r safonau proffesiynol yr ydym wedi'u pennu ar gyfer y sector. Gallant fod yn siŵr hefyd y byddwn yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon ynglŷn ag addasrwydd unigolyn i ymarfer mewn ffordd deg a thryloyw ac, os oes angen, ei atal rhag gweithio yn y sector gofal neu fynnu ei fod yn ymgymryd â hyfforddiant pellach.

Cyfrifoldeb y gweithiwr unigol yw sicrhau bod ei ffioedd yn cael eu talu os yw am barhau ar y gofrestr. Rydym eisiau i'r ffioedd fod yn fforddiadwy, a byddan yn adolygu ein costau'n barhaus i sicrhau ein bod yn cyflwyno gwasanaeth effeithlon ac effeithiol i gadw'r ffioedd yn rhesymol ac yn debyg i ffioedd cyrff tebyg. Mae dulliau prosesu digidol a mentrau eraill i dorri costau wedi ein helpu i leihau costau gwirioneddol cofrestru, ond nid yw incwm o ffioedd yn ddigon o hyd i dalu costau cofrestru.

Mae Adran 74 y Ddeddf yn rhoi'r awdurdod i ni ofyn am ffioedd mewn cysylltiad â: chofrestru; darparu cyngor neu gynhorthwy; cymeradwyo cyrsiau; darparu hyfforddiant; copiâu o godau ymarfer a chopïau o'r Gofrestr neu ddarnau ohoni. Mae gennym y gallu felly i osod ein ffioedd ar lefel sy'n briodol yn ein tyb ni. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i ni ymgynghori â'r sector os ydym am wneud newidiadau i'n rheolau ac, yn wir, rydym am farn y bobl y mae'r newidiadau yn debygol o effeithio arnynt fel y gallwn ddatblygu strwythur ffioedd teg ac ymarferol.

3.4 Lefelau ffioedd rydym angen eu cyrraedd erbyn 2022

Erbyn 2022 bydd angen i ni osod ein ffioedd ar y lefelau a ddangosir yn Nhabl 1 isod. Fodd bynnag, mae gennym rywfaint o hyblygrwydd o ran sut yr awn ati i gynyddu ein ffioedd dros y pedair blynedd o 2018 i 2022 ac rydym am ddefnyddio'r ymgynghoriad i'n helpu i benderfynu beth yw'r ffordd orau o wneud hyn. Rydym wedi amlinellu strwythur ffioedd arfaethedig ar gyfer y pedair blynedd o 2018-2022 yn Nhabl 1. Pan fyddwn wedi cyrraedd y lefelau ffioedd a bennwyd gennym ar gyfer 2022, rydym wedi ymrwymo i'w cadw ar y lefelau hyn am dair blynedd arall, a bryd hynny byddwn yn eu hadolygu eto. Rydym yn cynnig amrywiaeth o ddulliau talu a gall trethdalwyr y Deyrnas Unedig hawlio rhyddhad treth ar eu ffioedd cofrestru.

Dyma sail cwestiynau'r ymgynghoriad yn Adran 4.

Tabl 1 – ffioedd presennol a chynnydd posibl yn y ffioedd o 2018-2022

| Math o Ffi | Lefel y ffi bresennol | Lefel ffi newydd arfaethedig 2022 | Lefel ffi Flynyddol Gynyddrannol Arfaethedig | | | |
|---|-----------------------|---|---|---|---|---|
| | | | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 |
| Gweithiwr cymdeithasol (gwneud cais, adnewyddu a ffi flynyddol) | £30 | £80 | £50 | £60 | £70 | £80 |
| Gweithiwr cymdeithasol – heb gymhwyso yn y DU (gwneud cais) | £125 | £350 (a ffi ychwanegol o £200 am brawf dawn os bydd yr ymgeisydd yn gofyn am hynny) | £350 (a ffi ychwanegol o £200 am brawf dawn os bydd yr ymgeisydd yn gofyn am hynny) | £350 (a ffi ychwanegol o £200 am brawf dawn os bydd yr ymgeisydd yn gofyn am hynny) | £350 (a ffi ychwanegol o £200 am brawf dawn os bydd yr ymgeisydd yn gofyn am hynny) | £350 (a ffi ychwanegol o £200 am brawf dawn os bydd yr ymgeisydd yn gofyn am hynny) |
| Rheolwr Gofal Cymdeithasol (gwneud cais, adnewyddu a ffi flynyddol) | £30 | £80 | £50 | £60 | £70 | £80 |
| Gweithiwr Gofal Cymdeithasol (gwneud cais, adnewyddu a ffi flynyddol) | £10 | £35 | £20 | £25 | £30 | £35 |
| Myfyriwr Gofal Cymdeithasol (gwneud cais a ffi flynyddol) | £10 | £15 | £15 | £15 | £15 | £15 |
| Dychwelyd i Ymarfer | £125 | £200 | £200 | £200 | £200 | £200 |

Tabl 2 – ffioedd rheoleiddwyr gofal cymdeithasol eraill y DU²

| Math o Ffi | Corff Rheoleiddio | | | |
|---|--------------------------|--|---|---|
| | Gofal Cymdeithasol Cymru | Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon | Cyngor Gofal Cymdeithasol yr Alban (bydd rhai ffioedd yn cynyddu Mis Medi 2017 – dangosir y ffioedd newydd yn gyntaf) | HCPG |
| Gweithiwr cymdeithasol (gwneud cais, adnewyddu a ffi blynyddol) | £30 | £65 | £80 (£30) | £63 (ffi scrwtineiddio) a £180 ffi cofrestru (cynnwys 2 flynydd cyntaf), felly £243 . Nodyn, mae disgownt o 50% i weithwyr cymdeithasol newydd wedi cymhwyso. Wedyn £180 am 2 flynedd (£90 y flwyddyn) |
| Gweithiwr cymdeithasol – heb gymhwyso yn y DU (gwneud cais) | £155 | £190 | £320 ar gyfer cais cyntaf ac asesiad. Gall ffioedd ychwanegol gynnwys £59 am ffi gwarchod grwpiau bregus (PVG) a £790 am brawf addasrwydd. | £495 a £180 ffi cofrestru (£675) |
| Gweithiwr cymdeithasol – heb gymhwyso yn y DU (blynyddol a adnewyddu) | £30 | £65 | £80 (£30) | £180 am 2 flynedd |
| Rheolwr Gofal Cymdeithasol (gwneud cais, adnewyddu a ffi blynyddol) | £30 | £65 | £80 (£30) | N/A |
| Gweithiwr Gofal Cymdeithasol (gwneud cais, adnewyddu a ffi blynyddol) | £10 | £30 | £25 (gweithiwr cymorth) £35 Gweithwyr gofal plant preswyl (RCCWs), swyddog gofal ysgolion a llety & Goruchwyliwr/ymarferwyr | N/A |
| Myfyriwr Gofal Cymdeithasol | £10 | £20 | £15 | N/A |
| Dychwelyd i Ymarfer | £155 | N/A | N/A | £135 a £90 ffi blynyddol |

² Gwybodaeth wedi ei gasglu Ebrill 2017.

Adran 3(b) – Eich barn am newidiadau i ffoedd cofrestru

3.5 Cwestiwn 1

Ydych chi'n meddwl bod dosbarthiad lefelau'r ffoedd yn adlewyrchu lefelau y grwpiau gwahanol o weithwyr?

Ydyn

Nac ydyn

Ddim yn gwybod

| |
|--|
| |
| |
| |

Defnyddiwch y blwch ar gyfer unrhyw sylwadau ac os ateboch nac ydw i'r cwestiwn, rhowch dystiolaeth i gefnogi eich ateb.

| |
|--|
| |
|--|

3.6 Cwestiwn 2

A ydych chi'n meddwl fod y cynnydd arfaethedig yn y ffi flynyddol i gwrdd â'r lefel ffoedd yn 2022 yn rhesymol? (dangosir y rhain yn Nhabl 1)

Ydyn

Nac ydyn

Ddim yn gwybod

| |
|--|
| |
| |
| |

Defnyddiwch y blwch ar gyfer unrhyw sylwadau ac os ateboch nac ydw i'r cwestiwn, rhowch dystiolaeth i gefnogi eich ateb.

| |
|--|
| |
|--|

3.7 Cwestiwn 3

Ydych chi'n meddwl fod yna unrhywbeth y gall Gofal Cymdeithasol Cymru ei wneud i helpu'r sector addasu i'r newidiadau?

Ydyn

Nac ydyn

Ddim yn gwybod

Rhowch eich sylwadau yn y blwch isod.

Adran 4(a) – Gofynion o ran cymwysterau gweithwyr gofal cartref

4.1 Pam cael gofynion o ran cymwysterau?

Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (“y Ddeddf”) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn dangos bod Llywodraeth Cymru o’r farn bod cymwysterau yn rhan hanfodol o’i hymdrechion i broffesiynoli’r gweithlu gofal cymdeithasol. Yn ôl Adran 83 y Ddeddf, mae’n ofynnol i ni sicrhau bod gweithwyr gofal cymdeithasol ‘wedi eu cymhwyso’n briodol’. Rydym yn credu bod hyn yn golygu gosod gofynion hyfforddiant a chymwysterau i bob categori o weithiwr gofal cymdeithasol ac adolygu’r gofynion dros amser i gyd-fynd ag anghenion y sector.

4.2 Beth yw manteision cael gofynion o ran cymhwysterau?

Mae Llywodraeth Cymru wedi amlygu bod gofal a chymorth gartref yn flaenoriaeth ar gyfer gwella; mae cael gweithlu gyda’r sgiliau, y wybodaeth a’r gwerthoedd cywir yn hollbwysig ar gyfer welliant o’r fath. Rydym yn pwysleisio hyn yn *Gofal a chymorth yn y cartref yng Nghymru - Cynllun strategol pum-mlynedd 2017-2022*.

Rydym yn credu fod y gofynion ar ofal cymdeithasol yn cynyddu, fel ma cymlethdodau y gwaith maent yn ei wneud. Rhaid i ni wneud yn siŵr fod gweithwyr gofal cymdeithasol yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i weithio yn ddiogel a fod eu cyflogwyr yn eu cefnogi yn ei swyddi.

Os byddwn yn caniatáu i weithwyr gofal cymdeithasol gofrestru gyda ni pan na fyddant wedi cymhwyso’n briodol, bydd risg i’r cyhoedd. Hefyd, bydd risg annhegwch yn ein prosesau addasrwydd i ymarfer, o gofio y gallwn ddwyn achosion yn erbyn pobl gofrestredig sy’n methu â chyrraedd ein safonau.

Rydym am gefnogi’r gweithlu gofal yn y cartref i wneud yn siŵr fod pwysigrwydd y gweithlu yn cael ei adnabod; un ffordd do wneud hyn yw drwy sicrhau ansawdd a chydabyddiaeth broffesiynol.

4.3 Cymwysterau arfaethedig ar gyfer cofrestru gweithwyr gofal cartref

Rydym yn cynnig y dylai gweithwyr gofal yn y cartref sydd wedi cofrestru cyrraedd y gofynion cymwysterau sydd eisoes wedi eu cydnabod yn y fframwaith cymwysterau ar gyfer y sector. Mae’r fframwaith yn gosod allan y cymwysterau cyfunol i gyrraedd isafswm y safonau cenedlaethol ar gyfer

asiantaethau gofal yn y cartref. Datblygwyd y fframwaith mewn partneriaeth gyda'r sector a dros 50% o'r gweithlu eisoes gyda'r cymwysterau yma. Dyma'r cymwysterau hyn:

I bobl sy'n cael eu cyflogi i weithio gydag oedolion mewn lleoliadau gofal cartref:

- Diploma Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon, neu
- Ddiploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon, neu
- gymhwyster blaenorol fel y'i disgrifir yn y Fframwaith Cymwysterau ar gyfer y Sector Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.³

I bobl sy'n cael eu cyflogi i weithio gyda phlant mewn lleoliadau gofal cartref:

- Diploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Plant a Phobl Ifanc) Cymru, neu
- gymhwyster blaenorol fel y'i disgrifir yn y Fframwaith Cymwysterau ar gyfer y Sector Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.

4.4 Beth ddigwyddai os nad yw gweithwyr gofal yn y cartref gyda'r cymhwysterau arfaethedig?

Yn achos gweithwyr gofal cartref heb un o'r cymwysterau a restrwyd uchod, rydym eisiau defnyddio Dyfarniad Lefel 2 ar gyfer Gofal Cymdeithasol fel cymhwyster gofynnol cychwynnol⁴.

Mae hyn yn ymdrin â'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth y mae eu hangen ar weithwyr yn ystod eu 12 wythnos gyntaf mewn gwaith, fel a osodir allan yn y Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCIF). Mae'n ofynnol i weithwyr sy'n newydd i'r sector, yn newydd i sefydliad neu'n newydd i rôl benodol gwblhau Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCIF). Mae hwn eisoes yn sefydlog, yn cael i ddefnyddio'n eang ac fe'i ddatblygwyd mewn partneriaeth. Mae'r SCIF ar gael ers 2001 a dangosir cyswllt â'r sector ei fod yn cael ei ddefnyddio'n helaeth.

Cynigwn, er mwyn cofrestru, fod unigolion angen ennill y Dyfarniad Lefel 2 a chwblhau'r SCIF o fewn chwech mis o ddechrau gweithio fel gweithiwr gofal cartref.

³ Mae manylion y cymwysterau ar gyfer gweithwyr gofal cartref i'w gweld ar dudalen 34 y Fframwaith Cymwysterau ar gyfer y Sector Gofal Cymdeithasol yng Nghymru https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Fframwaith-Cymwysterau-ar-gyfer-y-sector-gofal-cymdeithasol-yng-Nghymru.pdf.

⁴ Gwybodaeth am y Dyfarniad Lefel 2 mewn Sefydlu Gofal Cymdeithasol (Cymru) http://www.cgymru.org.uk/qualifications-and-nos-finder/qualification.php?id=32&qualification_type=1&cat_suite=8&level=0?force=2&bc

Lle y bo gweithwyr yn defnyddio'r dyfarniad a'r fframwaith sefydlu i gofrestru, bydd arnynt angen hefyd cwblhau un o'r cymwysterau sydd wedi'u rhestru yn 4.3 o fewn y cyfnod cofrestru cyntaf (tair blynedd).

4.5 Beth y gall Gofa Cymdeithasol Cymru wneud i helpu y broses yma?

Rydym yn cydnabod bod cofrestru y gweithlu gofal yn y cartref yn cynnig llawer o gyfleoedd cadarnhaol, gan gynnwys cydnabyddiaeth i'r y rhai sy'n cyflawni rol hollbwysig o gynorthwyo unigolion sydd angen gofal a chymorth yn y cartref. Credwn y bydd hyn o fudd i weithwyr gofal cymdeithasol a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal. Bydd hefyd yn helpu cyflogwyr, sydd yn ofynnol drwy reoliadau i sicrhau bod eu gweithwyr gyda'r cymhwysterau briodol ac wedi derbyn ymsefydliad addas i'r proffesiwn.

Cyfrifoldeb unigolyn yw cofrestru proffesiynol yn y pen draw , ond mae cefnogaeth y cyflogwr yn hanfodol. Rydym am gryfhau'r berthynas hon, fel y nodir yng nghôd y cyflogwr.

Rydym yn cydnabod fod y sector gofal cartref yn wynebu pwysau cynyddol, ac rydym am chwarae rôl gefnogol yn cofrestru'r gweithlu. Byddwn yn:

- Ceisio dylanwadu ar arian cyhoeddus ar gyfer cymwysterau, fel bod y gofyniad am gymwysterau gofal cartref yn cael ei gydnabod. Byddwn hefyd yn ystyried pa adnoddau y gallwn ddarparu yn rhanbarthol i gefnogi gofynion cymhwyster, er enghraifft, drwy raglen datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol
- Gwella ansawdd y cymwysterau gofal cymdeithasol. Rydym wedi cael y gallu i reoleiddio hyfforddiant gofal cymdeithasol. Rydym yn gweithio â Cymwysterau Cymru⁵ i gryfhau cymwysterau gofal cymdeithasol.
- Rydym yn adolygu SCIF i wella'r cynnwys presennol gyda'r bwriad o ddod yn fframwaith ymsefydlu a rennir ar draws ieuchyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn wedi bod yn destun ymgynghoriad ar wahân. Ein bwriad yw cael y fframwaith ymsefydlu diwygiedig ar gael ar gyfer y sector gofal o Tachwedd 2017, yn weithredol o fis Ebrill 2018, a darparu llyfrau gwaith i gefnogi unigolion gyda'r fframwaith.
- Darparu cyngor rhagweithiol ac arweiniad ar sut i gofrestru ar gyfer cyflogwyr a gweithwyr

Mae'r cwestiynau yn adran 4(b) yn ymwneud â'r newidiadau i'r gofynion o ran cymwysterau.

⁵ Cymwysterau Cymru yw'r corff anibynol sy'n gyfrifol am reoleiddio cymhwysterau ty allan i gymhwyster gradd a'r system gymhwysterau yng Nghymru.

Adran 4(b) – Eich barn am y gofynion arfaethedig o ran cymwysterau

4.6 Cwestiwn 4

A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddefnyddio'r cymwysterau sydd wedi'u rhestru yn y Fframwaith Cymwysterau presennol ar gyfer gweithwyr gofal cartref (fel y'u crynhoir uchod) er mwyn cofrestru?⁶

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

| |
|--|
| |
| |
| |

Defnyddiwch y blwch am sylwadau, tystiolaeth am unrhyw bryderon neu gynigion arall.

| |
|--|
| |
|--|

4.7 Cwestiwn 5

a) Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y byddwn ni'n defnyddio Gwobr Lefel 2 mewn Sefydlu Gofal Cymdeithasol (Cymru), i bobl sydd ddim ag un o'r cymwysterau yn y rhestr, fel gofyniad cychwynnol i gofrestru, ynghyd â chwblhau'r Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol llawn?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

| |
|--|
| |
| |
| |

⁶ Mae manylion i'w gweld ar dudalen 34 y Fframwaith Cymwysterau ar gyfer y Sector Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Gall fod rhai amgylchiadau pan ystyrir bod cymhwyster yn gyfwerth â chymhwyster sydd wedi'i enwi yn y Fframwaith Cymwysterau. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi datblygu prosesu asesu ar gyfer pobl sy'n dymuno cofrestru gyda chymhwyster a all fod yn gyfwerth.

Defnyddiwch y blwch am sylwadau, tystiolaeth am unrhyw bryderon neu gynigion arall.

b) Lle mae gweithwyr wedi defnyddio'r wobr a fframwaith sefydlu i gofrestru, bydd rhaid iddynt gwblhau un o'r cymwysterau yn y rhestr o fewn tair blynedd o gofrestru. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

| |
|--|
| |
| |
| |

Defnyddiwch y blwch am sylwadau, tystiolaeth am unrhyw bryderon neu gynigion arall.

4.8 Cwestiwn 6

Rydym am gefnogi cofrestru gweithwyr gofal cartref. Pa fath o gymorth ydych chi'n meddwl fydd ei angen ar gyflogwyr a gweithwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer cofrestru'r gweithlu gofal cartref - e.e. sesiynau gwybodaeth, sesiynau cyfnewid ymarfer?

Adran 5(a) – Newidiadau arfaethedig i'r Côt Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr

5.1 Ynglŷn â'r Côt Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr

Yn ôl Adran 112 *Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016* (y Ddeddf), mae'n ofynnol i Gofal Cymdeithasol Cymru baratoi ac, o bryd i'w gilydd, cyhoeddi codau ymarfer. Mae'r codau hyn yn amlinellu'r safonau ymddygiad ac ymarfer a ddisgwylir gan weithwyr gofal cymdeithasol a'r rhai sy'n eu cyflogi neu'n awyddus i'w cyflogi. Mae'r codau yn adnoddau rheoleiddiol yr ydym ni'n eu defnyddio, ynghyd â phecyn o ddeddfwriaeth a rheolau, i ategu ymarfer gorau.

Bwriedir i'r *Côt Ymarfer ar gyfer Pobl sy'n Cyflogi Gweithwyr Gofal Cymdeithasol* (Côt y cyflogwyr) sicrhau bod cyflogwyr yn helpu eu staff i fodloni gofynion y *Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol* (y Côt). Mae'n ategu arferion presennol cyflogwyr ac yn dangos cyfrifoldebau cyflogwyr o ran rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol.

5.2 Pam yr ydym yn newid y Côt?

Cafodd y *Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol* ei ddiweddarau yn 2015 ac nid oes gennym unrhyw fwiad i'w newid. Fodd bynnag, mae côd y cyflogwyr wedi bod ar waith er 2002 ac mae arnom angen ei ddiweddarau i adlewyrchu'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*, a newidiadau yn y sector.

Bydd y safonau yn y côd yn cael eu gorfodi gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) trwy reoliadau ac arweiniad statudol. Rydym am i'r safonau hyn fod yn berthnasol ac yn gyflawnadwy, a dyma pam rydym ni'n ymgynghori â'r sector ar y newidiadau arfaethedig. Mae'r Côt i'w weld yn Atodiad 2.

Dyma sail y cwestiynau yn adran 5(b).

Adran 5(b) – Eich barn ar y Côt Ymarfer ar gyfer Pobl sy'n Cyflogi Gweithwyr Gofal Cymdeithasol

5.3 Cwestiwn 7

Mae'r Côt Ymarfer drafft ar gyfer Cyflogwyr i'w weld yn Atodiad 2.

A ydych chi o'r farn bod y safonau yn y Côt yn rhesymol ac yn gyflawnadwy i gyflogwyr?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

| |
|--|
| |
| |
| |

Rhowch eich sylwadau yn y blwch isod.

| |
|--|
| |
|--|

5.4 Cwestiwn 8

a) A ydych chi o'r farn bod unrhyw fylchau yng nghynnwys Côt y cyflogwyr?

Ydw


Nac ydw

Ddim yn gwybod

| |
|--|
| |
| |
| |

Defnyddiwch y gofod sod i ddweud wrthym am unrhyw fylchau.

| |
|--|
| |
|--|



Adran 6(a) – Newidiadau arfaethedig i Reolau Addasrwydd i Ymarfer 2017

6.1 Beth yw'r newidiadau i'r rheolau?

Rydym wedi amlygu dau o feysydd y rheolau addasrwydd i ymarfer yr hoffem wneud mân newidiadau iddynt.

- Mae'r newid cyntaf yn ymwneud ag atgyfeiriadau uniongyrchol i baneli addasrwydd i ymarfer.
- Mae'r ail yn ymwneud â'r broses ar gyfer gwneud cais am wŷs tyst.

6.2 Pam newid y rheolau?

Mae Adran 121 *Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016* (y Ddeddf) yn caniatáu i ni greu rheolau am yr amgylchiadau pan mae'n rhaid i ni atgyfeirio mater addasrwydd i ymarfer yn uniongyrchol i banel addasrwydd i ymarfer. Fel ein bod yn cyd-fynd â'r Ddeddf a'r ffordd y mae rheoleiddwyr gofal cymdeithasol eraill y DU yn gweithio, rydym am ddefnyddio adran 121 i awdurdodi atgyfeiriadau uniongyrchol i baneli yn achos:

- collfarnau troseddol perthnasol
- rhybuddiadau perthnasol
- cynnwys ar restr gwahardd, neu
- benderfyniadau perthnasol gan gyrff rheoleiddio eraill.

Ar hyn o bryd, rydym yn gallu atgyfeirio'r achosion hyn i baneli addasrwydd i ymarfer o dan adran arall o'n *Rheolau Ymchwilio Addasrwydd i Ymarfer 2017*. Fodd bynnag, mae'r broses hon yn hwy ac yn llai effeithlon nag atgyfeiriad uniongyrchol. Mae hyn yn effeithio ar ein gallu i ymateb i faterion amddiffyn y cyhoedd yn gyflym ac, o ystyried difrifoldeb rhai o'r materion yr ydym yn ymdrin â nhw a'n hangen i amddiffyn y cyhoedd, rydym o'r farn bod angen i ni newid y rheolau.

Dyma sail y cwestiwn cyntaf yn adran 6(b).

Mae *Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) (Diwygio) 2017* wedi newid y broses ar gyfer cyhoeddi gwysion tystion: gwneir ceisiadau am wysion tystion i'r Llys Sirol neu'r Uchel Lys, yn hytrach na'r Tribiwnlys Safonau Gofal. Rydym am ddiwygio ein rheolau i adlewyrchu'r newid gweinyddol hwn.

Dyma sail yr ail gwestiwn yn adran 6(b).

Adran 6(b) – Eich barn am y newidiadau i Reolau Addasrwydd i Ymarfer 2017

6.3 Cwestiwn 9

Rydym yn newid *Rheolau Ymchwilio Addasrwydd i Ymarfer 2017* fel y gallwn atgyfeirio'n uniongyrchol i baneli addasrwydd i ymarfer pan fydd y mater sy'n destun ymchwiliad yn ymwneud â'r canlynol:

1. collfarn neu rybuddiad person cofrestredig mewn cysylltiad â throstedd berthnasol
2. cynnwys person cofrestredig ar restr wahardd
3. dyfarniad gan gorff perthnasol i'r perwyl bod amhariad ar addasrwydd y person cofrestredig i ymarfer.

A oes gennych unrhyw sylwadau am y newidiadau arfaethedig?

Oes

Nac oes

Ddim yn gwybod

| |
|--|
| |
| |
| |

Defnyddiwch y gofod isod i roi unrhyw sylwadau.

6.4 Cwestiwn 10

Rydym yn newid ein *Rheolau Addasrwydd i Ymarfer 2017* fel y gwneir ceisiadau am wysion tystion i'r Uchel Lys neu'r Llys Sirol, yn hytrach na'r Tribiwnlys Safonau Gofal.

A oes gennych unrhyw sylwadau am y newid hwn?

Oes

Nac oes

Ddim yn gwybod

| |
|--|
| |
| |
| |

Defnyddiwch y gofod isod i roi sylwadau

| |
|--|
| |
|--|

Atodiad 1

Rhestr ddsbarthu ar gyfer yr Ymgynghoriad

Holl unigolion cofrestredig Gofal Cymdeithasol Cymru
Llywodraeth Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Fforwm Gofal Cymru
Fforwm Gofalwyr a Rhieni
Plant yng Nghymru
Y Rhwydwaith Maethu
Cynghorau rheoleiddio gofal cymdeithasol ac iechyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru – Sarah Rochira
Comisiynydd Plant Cymru – Sally Holland
Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
Penaethiaid gwasanaethau plant
Penaethiaid gwasanaethau oedolion
Penaethiaid Cyfarwyddiaethau Gwasanaethau Cymdeithasol
UNISON/UNSAIN
GMB
Unite
BASW
United Kingdom Homecare Association
Barnardos
Rhwydwaith plant sy'n derbyn gofal
Diverse Cymru
Action for Children Cymru
NSPCC Cymru
Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru dros
SNAP Cymru
ABCD Cymru
Is-bwyllgor Cymwysterau a Safonau (QSSC)
Voices from Care
Rheolwyr Hyfforddiant
Partneriaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Gwasanaethau Addysg a Datblygu'r Gweithlu (WEDS)
Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol (NYAS)

Atodiad 2

Y Côt Ymarfer ar gyfer Pobl sy'n Cyflogi Gweithwyr Gofal Cymdeithasol (Drafft ymgynghori)

Cyhoeddir y Côt Ymarfer hwn ar gyfer Pobl sy'n Cyflogi Gweithwyr Gofal Cymdeithasol (Côt y Cyflogwyr) gan Gofal Cymdeithasol Cymru yn unol ag Adran 112 *Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016* (y Ddeddf).

Mae'n rhestr o ddatganiadau sy'n disgrifio'r safonau a ddisgwylir oddi wrth bobl sy'n cyflogi neu sy'n ceisio cyflogi gweithwyr gofal cymdeithasol.

Ffocws Côt y Cyflogwyr yw'r safonau sy'n ofynnol i gyflogwyr eu harddangos, gan sicrhau gweithlu gofal cymdeithasol diogel, medrus, sydd wedi'i gefnogi'n briodol.

Ni fwriedir iddo ymdrin â phob sefyllfa nac agwedd ar gyfrifoldeb cyflogwyr. Mae cyflogwyr yn cadw at amrywiaeth o ofynion sydd arnynt, sef gofynion a amlinellir mewn deddfwriaeth, rheoliadau statudol ac arweiniad.

Mae Côt y Cyflogwyr yn rhoi arweiniad i bob person sy'n cyflogi gweithwyr gofal cymdeithasol.

Y Côt Ymarfer ar gyfer Pobl sy'n Cyflogi Gweithwyr Gofal Cymdeithasol

Yn achos pobl sy'n cyflogi gweithwyr gofal cymdeithasol mewn gwasanaethau rheoleiddiedig⁷ o dan Ran 1 y Ddeddf, mae rheoliadau gwasanaeth (drafft) ar y Gofynion ar Ddarparwyr Gwasanaeth ynghylch Staffio yn datgan 'Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gadw at y côd ymarfer ar y safonau ymddygiad ac ymarfer a ddisgwylir oddi wrth bobl sy'n cyflogi neu sy'n ceisio cyflogi gweithwyr gofal cymdeithasol; mae'n ofynnol i Gofal Cymdeithasol Cymru gyhoeddi'r côd hwn o dan adran 112(1)(b) y Ddeddf.

Gall Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) weithredu os bydd darparwyr yn methu â chydymffurfio â'r rheoliadau hyn.

Yn ogystal â'r ddarpariaeth yn y Côt, o dan adrannau canlynol y Ddeddf, gallwn roi cyngor i bobl, gan gynnwys cyflogwyr, a allai gynnwys cyngor ynghylch gwelliannau a awgrymir, fel a ganlyn:

Adran 69 – gall Gofal Cymdeithasol Cymru roi cyngor i unrhyw berson sy'n darparu gwasanaeth gofal a chymorth, neu gymorth arall (gan gynnwys grantiau) at ddiben annog gwelliant wrth ddarparu'r gwasanaeth hwnnw;

Adran 126 – yn dilyn ymchwiliad addasrwydd i ymarfer yn gysylltiedig â pherson cofrestredig, na chaiff ei atgyfeirio i wrandawriad gan banel addasrwydd i ymarfer, caiff Gofal Cymdeithasol Cymru roi cyngor i unrhyw berson sy'n ymwneud â'r ymchwiliad, mewn cysylltiad ag unrhyw fater sy'n gysylltiedig â'r ymchwiliad;

Adran 137 – pan fo panel addasrwydd i ymarfer wedi dyfarnu nad oes amhariad ar addasrwydd person cofrestredig i ymarfer, caiff y panel roi cyngor i unrhyw berson sy'n ymwneud â'r achos ynghylch unrhyw fater sy'n gysylltiedig â'r honiad yn erbyn y person cofrestredig, neu'r wybodaeth a arweiniodd at yr achos.

Mae'r Côt hwn yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyflogwyr gadw at y safonau a amlinellir yn eu Côt, cynorthwyo'r gweithlu gofal cymdeithasol i ddiwallu eu Côt (*Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol*) a chymryd camau priodol pan na fydd staff yn cyflawni safonau ymddygiad disgwyliedig.

Mae Côt y Cyflogwyr yn disodli'r *Côt Ymarfer ar gyfer Cyflogwyr Gofal Cymdeithasol* a gyhoeddwyd yn 2002. Mae'r Côt yn berthnasol o xxxxxx ymlaen.

⁷ Mae gwasanaethau rheoleiddiedig yn cynnwys: gwasanaeth gofal cartref; gwasanaeth llety diogel; gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd; gwasanaeth mabwysiadu; gwasanaeth maethu; gwasanaeth lleoli oedolion; gwasanaeth eirioli neu wasanaethau cymorth cartref.

Pwy sy'n 'weithiwr gofal cymdeithasol'?

Mae 'gweithwyr gofal cymdeithasol' yn rheoli, neu'n darparu gofal a chymorth mewn cysylltiad â gwasanaethau rheoleiddiedig o dan Ddeddf 2016⁸. Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn cynnwys gweithwyr gofal a chymorth, rheolwyr gofal cymdeithasol, gweithwyr cymdeithasol, myfyrwyr gwaith cymdeithasol, unigolion cyfrifol a ddynodir gan ddarparwyr gwasanaethau, arolygwyr AGGCC, gofaluwr plant a darparwyr gofal dydd sydd wedi cofrestru o dan Ran 2 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

I weld y rhestr lawn o weithwyr gofal cymdeithasol, gweler adran 79 y Ddeddf a Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") 2016.

<http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/section/79>

I bwy mae'r Côt hwn yn ymestyn

Mae'r Côt hwn yn ymestyn i bersonau sy'n cyflogi unrhyw un sy'n dod o fewn ystyr 'gweithiwr gofal cymdeithasol' ac eithrio pobl a gyflogir gan ofalwr plant cofrestredig neu ddarparwr gofal dydd i blant. Fodd bynnag, mae'r Côt yn sicrhau lefel o ymarfer da sy'n gallu cael ei drosglwyddo i bob cyflogwr. Disgwylir y byddai gofaluwr plant sy'n cyflogi cynorthwyr ac ymarferwyr gofal plant yn defnyddio'r Côt i ategu safon staffio 13 y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant⁹.

⁸ Gweler adran 79 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

⁹ <http://cssiw.org.uk/docs/cssiw/publications/160411regchildcareen.pdf> gweler safon 13 - staffio

Geirfa

Esboniad o dermau eraill a ddefnyddir yn y Côd hwn.

| Term | Ystyr |
|---|---|
| Gofalwr | Mae gofalwr yn darparu gofal a / neu gymorth di-dâl a gallai gynnwys aelodau'r teulu, partneriaid, cymdogion neu ffrindiau |
| Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol | Y safonau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol a ddisgwylir oddi wrth weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru |
| Unigolyn | Y person sy'n cael at ofal a chymorth, boed yn blentyn, yn berson ifanc neu'n oedolyn |
| Canllawiau ymarfer | Canllawiau a gyhoeddir gan Gofal Cymdeithasol Cymru i gynorthwyo gweithwyr gofal cymdeithasol â'u hymarfer |
| Hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru (PRTL) | Mae'n ofynnol i weithwyr gofal cymdeithasol sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru gyflawni 15 diwrnod neu 90 awr o ddysgu yn ystod pob cyfnod cofrestru 3 blynedd i gynnal eu cofrestriad |
| Rheolwr cofrestredig | Mewn gwasanaethau rheoleiddiedig, mae'n ofynnol i reolwr gwasanaeth gofal cymdeithasol gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru |
| Unigolyn cyfrifol | Mewn gwasanaethau wedi'u rheoleiddio, lle y bo'r darparwr cofrestredig yn gorff corfforaethol, rhaid dynodi Unigolyn Cyfrifol. Mae'n rhaid i Unigolion Cyfrifol ddiwallu 'prawf person addas a phriodol' a chyflawni dyletswyddau statudol a roddir arnynt o dan reoliadau. |

Y Côd

Mae pum rhan i Gôd y cyflogwyr.

I gyrraedd yr holl safonau, lle bo'r angen mewn gwasanaethau rheoleiddiedig, rhaid i'r cyflogwr benodi Rheolwr Cofrestredig ac Unigolyn Cyfrifol addas a'u cefnogi i gyflawni eu cyfrifoldebau.

Adran 1

Gwneud yn siŵr bod pobl yn addas i ymuno â'r gweithlu gofal cymdeithasol ac yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau

Bydd cyflogwyr

- 1.1 Yn defnyddio polisiâu a phrosesau recriwtio trylwyr i wneud yn siŵr mai pobl addas yn unig, sydd â gwybodaeth, sgiliau, gwerthoedd a photensial priodol, sy'n ymuno â'r gweithlu. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod pobl yn meddu ar y cymwysterau a'r cofrestriad proffesiynol sy'n ofynnol ar gyfer eu swydd.
- 1.2 Yn archwilio cofnodion troseddol a chofrestri perthnasol, unrhyw fylchau mewn hanes cyflogaeth ac yn sicrhau bod hawl gyfreithiol gan yr unigolyn i weithio yng Nghymru. Gwneir hyn cyn penodi.
- 1.3 Yn gofyn am eirdaon cywir a phriodol, ac yn eu darparu, er mwyn rhannu gwybodaeth am addasrwydd unigolyn i weithio mewn gofal cymdeithasol ac mewn rôl benodol.
- 1.4 Yn rhoi gwybodaeth glir i weithwyr am eu rôl, cyfrifoldebau, atebolrwydd, deddfwriaeth berthnasol a'r polisiâu a'r gweithdrefnau y mae'n rhaid iddynt gadw atynt yn eu gwaith.
- 1.5 Yn rhoi gwybodaeth glir i weithwyr am linellau rheoli, cyfathrebu a chefnogaeth yn y gweithle. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am gefnogaeth ar gyfer iechyd, diogelwch a llesiant y gweithiwr yn y gweithle.
- 1.6 Yn gwneud yn siŵr bod telerau ac amodau gweithiwr yn gyfreithlon ac yn ddigonol i gynnal gweithlu addas a, hefyd, adolygu telerau ac amodau yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau'n gyfreithlon ac yn ddigonol.

Adran 2

Mae polisïau, systemau ac arferion ar waith i alluogi gweithwyr gofal cymdeithasol i fodloni eu Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol

Bydd cyflogwyr

- 2.1 Yn cynorthwyo gweithwyr gofal cymdeithasol i gyrraedd y safonau yn y *Côt Ymarfer Proffesiynol* a'r canllawiau ymarfer cysylltiedig.
- 2.2 Os ydynt yn cyflogi gweithwyr o broffesiynau eraill, yn eu cynorthwyo i ddiwallu eu codau proffesiynol ac yn rhoi gwybod i'r awdurdod perthnasol am weithwyr y gall fod amhariad ar eu haddasrwydd i ymarfer.
- 2.3 Yn rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith i ymateb i honiadau o niwed, esgeulustod neu gamdriniaeth, ac yn eu monitro. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gweithwyr yn meddu ar wybodaeth am arwyddion niwed, esgeulustod neu gamdriniaeth, a'u bod yn gwybod pa gamau y dylent eu cymryd.
- 2.4 Yn rhoi polisïau ysgrifenedig ar gyfrinachedd a chadw cofnodion ar waith, ac yn eu monitro.
- 2.5 Yn meddu ar drefniadau effeithiol ar gyfer rheoli a goruchwylio gweithwyr er mwyn hybu arfer gorau ac ymddygiad da, a chynorthwyo gweithwyr i wella'u perfformiad. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod gweithwyr yn addas i ymarfer.
- 2.6 Wedi rhoi systemau ar waith i wrando ar adborth gan unigolion a gofalwyr, ac ymateb iddo, i lywio a gwella gwasanaethau a pherfformiad staff.
- 2.7 Wedi rhoi polisïau a systemau ar waith er mwyn i weithwyr godi pryderon am unrhyw fater a allai gael effaith negyddol ar ddarparu gofal a chymorth diogel ac urddasol, ac yn cymryd camau digonol i ymateb i bryderon.
- 2.8 Wedi sefydlu diwylliant a rhoi systemau ar waith i gynorthwyo pob gweithiwr i fod yn agored ac yn onest os aiff pethau o le, i roi gwybod am ddigwyddiadau negyddol ac i ddysgu o gamgymeriadau. Mae hyn yn cynnwys gwneud ymdrechion i ddatrys anawsterau yn gynnar, er mwyn lleihau'r posibilrwydd y bydd problem yn gwaethygu.

Adran 3

Darparu a chefnogi cyfleoedd dysgu a datblygu i alluogi gweithwyr gofal cymdeithasol i ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau

Bydd cyflogwyr

- 3.1 Yn darparu cyfleoedd sefydlu, dysgu a datblygu trylwyr a hygyrch i helpu gweithwyr i wneud eu swydd yn effeithiol a pharatoi ar gyfer rolau a chyfrifoldebau newydd, sy'n newid. Mae hyn yn cynnwys galluogi gweithwyr i gael at eu cofnod dysgu a datblygu personol.
- 3.2 Yn cyfrannu at ddarparu addysg a dysgu gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol, gan gynnwys asesu effeithiol yn y gweithle a dysgu ymarfer effeithiol.
- 3.3 Yn cynorthwyo gweithwyr sydd angen cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru i fodloni a chynnal yr amodau ar gyfer cofrestru proffesiynol a'r gofynion ar gyfer hyfforddi a dysgu ôl-gofrestru.
- 3.4 Yn ymateb yn briodol i weithwyr sydd angen cymorth gan na theimlant eu bod yn gallu cyflawni eu gwaith, neu teimlant nad ydynt wedi'u paratoi'n ddigonol i wneud.
- 3.5 Yn cynnig goruchwyliaeth reolaidd, effeithiol i weithwyr i'w cynorthwyo i ddatblygu a gwella trwy ymarfer myfyriol.

Adran 4

Mae polisïau a systemau sy'n amddiffyn pobl rhag sefyllfaoedd, ymddygiad ac ymarfer niweidiol neu beryglus

Bydd cyflogwyr

- 4.1 Yn rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n hybu iechyd, llesiant a chydaddoldeb gweithwyr ac sy'n parchu amrywiaeth.
- 4.2 Yn rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion iechyd, diogelwch a diogeledd perthnasol. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod gweithwyr yn ymwybodol o'r rhain, gan gynnwys unrhyw newidiadau neu ddiweddariadau, monitro cydymffurfiaeth a chymryd camau priodol lle na chedwir at bolisïau a gweithdrefnau.
- 4.3 Yn rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith i ymchwilio i faterion disgyblu ac ymdrin â nhw'n ddigonol, gan gynnwys pan fydd y gweithiwr yn gadael y sefydliad cyn dwyn y mater i derfyn.
- 4.4 Yn ei gwneud hi'n glir i weithwyr nad yw bwlio, aflonyddu nac unrhyw fath o wahaniaethu yn dderbyniol ac yn cymryd camau i ymdrin ag ymddygiad o'r fath.
- 4.5 Wedi sefydlu gweithdrefnau i weithwyr roi gwybod am ymddygiad ac ymarfer sy'n beryglus, yn gwahaniaethu neu'n ddifriol, ac yn ymdrin yn brydlon, yn effeithiol ac yn agored ag adroddiadau.
- 4.6 Yn ei gwneud hi'n glir i weithwyr, unigolion a gofawyr nad yw trais, bygythiadau na cham-drin yn dderbyniol. Mae hyn yn cynnwys cael polisïau a gweithdrefnau ar gyfer lleihau risg trais a rheoli digwyddiadau treisgar.
- 4.7 Yn cefnogi gweithwyr sy'n dioddef trawma neu drais yn eu gwaith.
- 4.8 Yn rhoi cymorth i weithwyr y gall fod amhariad ar eu haddasrwydd i ymarfer a rhoi arweiniad clir ar unrhyw gyfyngiadau ar eu gwaith tra byddant yn cael cymorth. Tra'n gwneud hyn, sicrhau mai gofal a diogelwch unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau yw'r flaenoriaeth.

Adran 5

Hybu Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol a chydweithredu ag achosion Gofal Cymdeithasol Cymru

Bydd cyflogwyr

- 5.1 Yn rhoi gwybod i weithwyr gofal cymdeithasol am y Côt hwn ar gyfer cyflogwyr a'r cyfrifoldeb am gadw ato.
- 5.2 Yn rhoi gwybod i weithwyr gofal cymdeithasol am eu *Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol* a'u cyfrifoldeb proffesiynol am gadw ato.
- 5.3 Yn cynorthwyo rheolwr gofal cymdeithasol i ddiwallu eu cyfrifoldebau ychwanegol yn Adran 7 *Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol*.
- 5.4 Yn tynnu sylw unigolion a gofalwyr at y Codau Ymarfer ar gyfer cyflogwyr a gweithwyr gofal cymdeithasol a rhoi gwybod iddynt sut i godi problemau ynghylch y Codau, gan gynnwys sut i gysylltu â Gofal Cymdeithasol Cymru.
- 5.5 Ystyried *Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol* wrth wneud unrhyw benderfyniad yn ymwneud ag addasrwydd gweithiwr i ymarfer.
- 5.6 Dilyn canllawiau ar sut i gyflwyno atgyfeiriad i Gofal Cymdeithasol Cymru am weithiwr y gallai fod amhariad ar ei addasrwydd i ymarfer ac, os yw'n briodol, dweud wrth y gweithiwr am yr atgyfeiriad.
- 5.7 Cydweithredu ag ymchwiliadau a gwrandawiadau Gofal Cymdeithasol Cymru, gan gynnwys darparu dogfennau a mynychu gwrandawiadau.
- 5.8 Ymateb yn briodol i ganfyddiadau a phenderfyniadau Gofal Cymdeithasol Cymru am addasrwydd gweithiwr i ymarfer.

I gael rhagor o wybodaeth am y Côt hwn, Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol, canllawiau ymarfer, canllawiau esboniadol a deunyddiau hyfforddi, ewch i gofalcymdeithasol.cymru.